AI FFORDD DUW YW'R FFORDD ORAU?

Nodyn i'r siaradwr:
Mewn ffordd gynnes a pherswadiol, helpa'r gynulleidfa i weld pa mor rhesymol a buddiol yw dilyn ffordd Duw. Pwysleisia'r pwysigrwydd o adeiladu perthynas gref â Duw ac i ddangos ffydd gref ynddo

MAE FFORDD DUW YN WAHANOL IAWN I FFORDD Y BYD (5 mun.)

Mae'r Beibl yn dweud: "Disgwyl am yr ARGLWYDD! Dos y ffordd mae e'n dweud" (Sal 37:34)

Rydyn ni'n dilyn ffordd Jehofa drwy ei efelychu ef a gwneud beth mae ef eisiau

Mae ffyrdd Duw yn uwch na ffyrdd dynion oherwydd mae Ei ffyrdd ef wedi eu seilio ar gariad (Esei 55:8, 9; 1In 4:8)

Mae gan y rhai sy'n dilyn ffordd Duw rinweddau sy'n eu rhoi nhw ar wahân i'r rhai sy'n dilyn ffordd y byd (Mal 3:18; In 17:14-16)

Mae ffordd y byd yn dangos dylanwad Satan ac yn hyrwyddo hunanoldeb, materoliaeth, hiliaeth, anfoesoldeb rhywiol, a thrais (1In 5:19)

Sut gallwn ddysgu am ffordd Duw?

BETH GALL Y GREADIGAETH EI DDYSGU INNI AM FFORDD DUW? (6 mun.)

Gallwn weld *cariad, doethineb,* a *nerth* Duw yn ei greadigaeth (Rhu 1:19, 20; *w13*-E 8/1 11)

Mae rhinweddau Duw yn cael eu hamlygu gan yr holl bethau mae wedi eu darparu ar gyfer pob creadur byw (Sal 104:10-15; 145:15, 16)

Mae cymhlethdod y greadigaeth yn dangos Ei *ddoethineb* a'i *gariad* (Sal 104:24)

Mae'r broses annealladwy sy'n galluogi'r ymennydd i werthfawrogi harddwch yn anrheg gariadus gan Dduw

Mae'r bydysawd yn dystiolaeth dros *nerth* diderfyn Duw (Sal 8:3, 4; Esei 40:26)

Mae cyfreithiau natur yn gosod y sylfaen sy'n gwneud bywyd ar y ddaear yn bosib ac yn bleserus (*g*-E 12/09 5-7)

MAE'R BEIBL YN DANGOS SUT MAE FFORDD DUW O FUDD INNI HEDDIW! (6 mun.)

Mae'r greadigaeth yn dangos bod Duw eisiau inni fwynhau bywyd, ac fel dywed y Beibl, mae dilyn ei ffordd ef yn dod â hapusrwydd parhaol (Sal 119:18; 128:1)

Ffordd Duw yw i gyplau priod fwynhau perthynas agos sydd wedi ei seilio ar gariad a pharch (Eff 5:28, 33)

Ffordd Duw yw i rieni dderbyn y gwirionedd yn eu calonnau ac yna ei ddysgu i'w plant (De 6:6, 7, *BCND;* Eff 6:4)

Ffordd Duw yw i ni ddweud y gwir, ac i ddangos hunanreolaeth, gweithgarwch, a charedigrwydd (Eff 4:25-29, 31, 32)

Ffordd Duw yw i ni fyw mewn heddwch gyda phawb ac i wrthod rhagfarn a chasineb (Rhu 12:17, 18)

Ffordd Duw yw i ni ddangos parch a bod yn addfwyn wrth ufuddhau i'r awdurdodau llywodraethol ble bynnag rydyn ni'n byw (Tit 3:1, 2, *BCND*)

ADEILADU PERTHYNAS AGOS Â JEHOFA (10 mun.)

Mae Jehofa yn ein gwahodd i ymateb i'w gariad drwy feithrin perthynas agos ag ef (Sal 73:28)

Trwy astudio'r Beibl yn ddwfn ac yn aml, rydyn ni'n dod i adnabod Jehofa ac yn dod yn agosach fyth ato (Sal 119:33-35; In 17:3)

Trwy dywallt allan ein calon i Jehofa wrth weddïo, dangoswn faint rydyn ni'n ei drystio (Sal 62:8; 65:2)

Wrth inni siarad ag eraill am yr hyn rydyn ni'n ei ddysgu, mae enw Jehofa yn cael ei hysbysebu ac mae hyn yn ei blesio (Sal 105:1)

Mae ffydd gref sydd wedi ei hadeiladu ar wybodaeth gywir yn angenrheidiol er mwyn cael perthynas â Duw; dangoswn ein ffydd drwy ein gweithredoedd (Heb 11:6; Iag 2:24, 26)

Mae gweithredoedd yn cynnwys mynd i gyfarfodydd Cristnogol, sy'n ein helpu i adnewyddu ein meddyliau a gwisgo'r bersonoliaeth newydd (Rhu 12:2; Col 3:10)

[Fel y mae amser yn caniatáu, adroddwch brofiad(au) dibynadwy sy'n dangos bod cyfarfodydd Cristnogol yn rhan bwysig o'n cynnydd ysbrydol (*w07*-E 5/15 11; *w02*-E 5/15 8; *w00*-E 6/1 30; *w93*-E 8/15 9)]

CERDDED YN FFORDD DUW—NAWR AC AM BYTH (3 mun.)

Mae Jehofa yn annog pawb i gefnu ar ffordd y byd ac yn dysgu pawb i ddilyn ei ffordd Ef (Esei 55:6, 7)

Mae dilyn ffordd Duw yn dod â bendithion o heddwch a llwyddiant (Esei 48:17, 18)

Mae cerdded yn ffordd Duw yn gallu bod o fudd i ni ac i eraill—nawr ac am byth **[Darllen Salm 119:1-3]**

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School,* tudalennau 52-55, 166-169]

© 2017 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania